Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 322 – 21 Mai 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 321
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 321.

2. Adroddiad y Cadeirydd
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Dyfrig Jones fel Aelod newydd o'r Awdurdod.

Nododd y Cadeirydd ei fod ef ac IJ wedi mynychu cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC.

Roedd y Cadeirydd ac IJ wedi rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Materion Cymreig San Steffan ar y 5ed o Fai ar bwnc darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Saesneg yng Nghymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf.

Nododd y Cadeirydd ei fod ef, CE a PW wedi cyfarfod gyda Syr Michael Lyons, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC.

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu Cyngerdd Cyhoeddi Eisteddfod Môn 2010 ac roedd wedi annerch y gynulleidfa.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Nododd IJ fod disgwyl i adroddiad terfynol Prydain Ddigidol gael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

Mae swyddogion yn disgwyl am ragor o wybodaeth oddi wrth Ofcom parthed yr ail gais ar y cyd gyda Channel 4 am ofod ar gyfer gwasanaethau Manylder Uwch ar Blethiad B.

Nododd IJ fod y cynllun cyfathrebu digidol bellach yn weithredol a bod Garffild Lloyd Lewis wedi arwain cyfres o seminarau i gyflwyno'r neges i staff. Bydd GLlL yn cyflwyno'r ymgyrch ddigidol yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiadau Cwynion a Chydymffurfiaeth